


# Nerth oddi Fry

Llythyr Bugeiliol i Deulu Asaph ar noswyl Dyrchafael 2020
Oddi wrth Esgob Gregory

Mae Dyrchafael Crist i'r Nef – gŵyl y mae'r Eglwys yn ei chadw yfory – yn drobwynt. Mae'n ddiwedd gweinidogaeth ddaearol Iesu – y tro olaf yr oedd yn bresennol yn gorfforol gyda'i ddisgyblion cyn dychwelyd at y Tad. Mae'r digwyddiad dirgel hwn yn cael ei ddisgrifio yn yr ysgrythurau fel esgyniad llythrennol, ond nid fel gwennol ofod yn cyrraedd momentwm i dorri'r rhydd, yn llythrennol, o afael disgyrchiant y Ddaear ond, yn hytrach, trosglwyddiad sydd yma o'r deyrnas ddaearol hon i'r deyrnas dragwyddol, i bresenoldeb y Duw hollbresenol. Er fy mod yn dweud nad torri'n rhydd yn llythrennol o ddisgyrchiant y Ddaear sy'n cael ei ddisgrifio, mae gwirionedd yn yr ymadrodd sy'n ei wneud yn drosiant gwych.

Gellir defnyddio disgyrchiant y Ddaear fel symbol o bopeth sy'n ein cadw rhag sancteiddrwydd, sy'n ein rhwystro rhag mynd i mewn i lawnder y bywyd sef ewyllys Duw ar ein cyfer ni. Rydyn ni'n gweld yn ein bywydau ein hunain y methiant i fod yn bopeth yr hoffen ni fod, yn bopeth yr hoffai Duw i ni fod (sy'n cael ei alw'n "bechod" yn y Beibl). Yn y byd, rydyn ni'n gweld holl bechodau dynolryw yn y gwahanol anghyfiawnderau, gorthrymderau a thrais sy'n gallu taflu ein byd oddi ar ei echel. Yn y Dyrchafael, mae Iesu'n torri'n rhydd o hyn i gyd, ond mae hefyd yn ein gwahodd ninnau i dorri'n rhydd hefyd. Yn yr Efengyl yn ôl Luc, ei eiriau olaf, bron, i'w ddisgyblion yw: "... disgwyl yn amyneddgar ... nes eich gwisgo chwi oddi uchod â nerth". (Luc 24.49). Gwahoddiad yw hwn i ddisgwyl yr Ysbryd Glân a fydd yn ymddangos ac yn nerthu'r disgyblion adeg y Sulgwyn i droi'r byd wyneb i waered, ac i dorri'n rhydd gyda'r Efengyl.

Ond gall hyd yn oed crefydd deimlo fel disgyrchiant sy'n ein tynnu i lawr ar adegau. Llwyth o gyfrifoldebau'n pwyso arnom ni wrth i ni ymdrechu i ddal ati a chyfarfod y disgwyliadau. Ond, nid yw Duw eisiau i ffydd fod fel hyn o gwbl. Rydyn ni'n cael ein galw i fod yn bobl sy'n adnabod y Gwirionedd ynghylch bywyd, wedi ein hymgorffori yn llawnder y bywyd yr oedd Iesu'n ei fyw a'i ddysgu ac sydd wedi'i estyn i ni trwy wahoddiad, a 'bydd y gwirionedd yn eich rhyddhau" (Ioan 8.32)

Rwyf wedi sôn yn yr wythnosau a aeth heibio sut rwy'n credu na allwn ni, yn ein disgyblaeth ein hunain, nac ym mywyd y genedl, fynd yn ôl at yr hen drefn pan fyddwn wedi cael ein rhyddhau o'r cyfyngiadau symud. Rwy'n amau hefyd fod yna lawer iawn o "ddisgyrchiant" sy'n cadw'r Eglwys mewn cyflwr o drymder, a'n bod ni'n cael ein galw i dorri'n rhydd yn nerth yr Ysbryd. Nid drwy fynd yn ôl i ogoniant y gorffennol y mae adnewyddu'r Eglwys, ond drwy ganfod hyder wrth wynebu'r dyfodol. Mae'r ffydd yn aros yr un fath, ond mae'n rhaid i'r Eglwys sy'n tystiolaethu iddo newid. Hoffwn weld Eglwys sydd wedi'i rhyddhau o wneud pethau yr un ffordd ag o'r blaen, ac yn Eglwys sy'n ailddarganfod addoliad a'r gair a'r sagrafennau am yr hyn ydyn nhw mewn gwirionedd– sianelau sy'n ein galluogi ni i nesau at Dduw, fel ei fod yn gallu ein llenwi gyda'i "nerth oddi fry". Hoffwn weld Eglwys sy'n gweld ei gwaith, nid fel cynnal a chadw adeiladau a gwasanaethau yr un fath ag yr oedden nhw gan mlynedd yn ôl, ond sy'n adeiladu bywydau llawn, yn seiliedig ar ffydd, ar ddilyn Iesu, ar wasanaethu'r byd mewn cariad. Hoffwn wasanaethu mewn Eglwys ble nad y cwestiwn ar wefusau pawb yw: "Pa mor hir fyddwn ni'n cadw i fynd?" ond "Sut allwn ni fod yn fwy fel Iesu?"

Pan ddywedodd Iesu wrth ei ddisgyblion "Yr wyf i wedi dod er mwyn i ddynion gael bywyd a'i gael yn ei holl gyflawnder"(Ioan 10.10), rwy'n siŵr ei fod yn gweld ffydd fel rhywbeth bywiol, yn rhoi llawenydd, yn cynhyrchu nerth, yn cyfathrebu tangnefedd. Pan oeddwn i'n fyfyriwr yng Nghaergrawnt, rwy'n cofio eglwys gydag arwydd ar y ffordd i mewn iddi: "Yn yr Eglwys hon rydym yn credu yn hanfodion y Ffydd Gristnogol, h.y. y Fersiwn Awdurdodedig o'r Beibl a'r Llyfr Gweddi Cyffredin 1662." Alla i ddim peidio â

theimlo fod yr Eglwys honno'n cymysgu rhwng y cyfrwng a'r neges. Mae Beibl y Brenin Iago'n gallu bod yn gyfrwng mawreddog, ac mae Cymun tawel y Llyfr Gweddi'n dal i allu bwydo fy enaid, ond nid pawb sy'n teimlo fel hyn a dywedodd Iesu wrthyn ni i fynd allan a dod â llawenydd y ffydd i eraill.

Mae pobl eisiau gweld sut mae pethau'n gwneud gwahaniaeth yn y byd heddiw. Os yw ffydd yn gadael pobl mor bigog ac mor sidêt ag erioed, yna bydd pobl yn gadael y ffydd. Mae mor syml a hynny!

A dweud y gwir, fe ddylai Clare gael gwared ar lawer o stwff o'r Esgobty. Pan fydd adeiladau ein Heglwys yn ail agor, fe ddylem ninnau gael gwared o'r "stwff" yn ein disgyblaeth a chwilio am "nerth oddi fry", er mwyn i Dduw ein helpu i dorri'n rhydd o'r disgyrchiant sy'n ein dal yn ôl, a chael ein cadw yn y weledigaeth o'r nef sy'n ein galw ymlaen.

Boed i chi Ddyrchafael dihafal a Sulgwyn syfrdanol,

